Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Sam's Learning Tree

**159 Ffordd y Dyffryn**
**Y Rhyl**
**LL16 2PH**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2011**

**gan**

**Peter Roach**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Sam's Learning Tree yn feithrinfa ddydd cyfrwng Saesneg yn nhref Y Rhyl yn Sir Ddinbych. Agorwyd y lleoliad yn 2001 ac mae'n darparu gofal plant o 7 yb hyd 6 yh, ddydd Llun i ddydd Gwener am 50 wythnos y flwyddyn. Mae wedi ei gofrestru ar gyfer 84 o blant rhwng ychydig fisoedd oed hyd at yr amser y byddant yn symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg. Amser yr arolygiad, roedd 6 phlentyn tair oed wedi eu cofrestru ac yn derbyn arian oddi wrth y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar ond dim ond dau oedd yn bresennol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi dau ar hugain aelod o staff, llawn amser a rhan amser, gyda chwech yn gweithio o fewn y tîm cyn ysgol. Mae ganddynt oll brofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae athro cynghorol cyswllt, benodir gan wasanaeth addysg yr awdurdod lleol, yn cefnogi'r lleoliad yn rheolaidd.

Ni ystyrir bod yr ardal dan anfantais, ond nid yw'n gyfoethog iawn chwaith. Daw'r plant o ystod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol.

Mae cyfleusterau'r lleoliad yn cynnwys llefydd ar wahân ar gyfer grwpiau oed gwahanol. Yn lle'r Tylluanod, sydd yn lle un pwrpas ar gyfer plant o dair i bump oed, darperir llefydd dysgu Cyfnod Sylfaen y tu mewn a'r tu allan. Y tu mewn mae'r ystafell wedi ei rhannu i wahanol lefydd dysgu, ac yn yr awyr agored mae cyfleoedd i blant brofi gweithgareddau chwarae gyda thywod, dŵr a theganau mawr.

Daw bron i bawb o'r plant sy'n mynychu'r sesiynau o'r ardal gyfagos a Saesneg yw iaith cartref y mwyafrif. Mae gan y plant eraill Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r grŵp chwarae yn lleoliad hollol gyfannol ac mae'n croesawu plant gydag anghenion dysgu ychwanegol a phlant o gefndiroedd ethnig gwahanol.

Archwiliwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2010. Dyma arolygiad cyntaf Estyn o'r lleoliad.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Mae’r perfformiad presennol yn dda oherwydd:**

- Mae’r holl blant yn cael gofal, cymorth a chyfeiriad;
- Mae’r staff yn deall eu rolau ac maent wedi cymryd rhan mewn ystod o gyrsiau hyfforddi;
- Mae’r lleoliad yn cael ei arwain a’i reoli’n dda;
- Mae perthnasau cynnes, gofalus rhwng y plant a’r ymarferwyr; a
- Mae’r plant yn hapus a diogel yn y lleoliad.

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:**

- Mae’r trefniadau hunan werthuso newydd yn sicrhau y bydd canlyniadau ar gyfer plant yn gwella;
- Mae systemau sefydlu a gwerthuso da yn eu lle;
- Mae tystiolaeth bod gwelliannau diweddar yn gynaliadwy ac yn debygol o ysgogi gwelliannau pellach; a
- Mae gan y tîm rheoli weledigaeth glir ar gyfer datblygu’r lleoliad yn y dyfodol gaiff ei rannu gyda’r holl ymarferwyr.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 Ddarparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

A2 Gryfhau'r dogfennau cynllunio ac asesu i gynnwys y sgiliau sy'n cael eu datblygu a'u hasesu.

A3 Ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth TGCh.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

*Bydd y lleoliad yn cynhyrchu cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn delio gyda'r argymhellion uchod.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu sgiliau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol i adrodd arnynt adeg yr arolygiad heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn rhoddi i'r holl blant ystod eang o weithgareddau cyffrous ar draws pob maes dysgu. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn i gynllunio ystod eang o weithgareddau sy'n galluogi'r plant i ddysgu'n effeithiol. Mae cynllunio yn amlwg wedi ei seilio ar egwyddorion Cyfnod Sylfaen ac yn cynnwys gweithgareddau a gysylltwyd yn agos gyda'r meysydd dysgu disgwyliedig. Byddai'r broses cynllunio hwn yn cael ei gryfhau pe byddai canlyniadau ar gyfer plant yn fwy llym i gynnwys datblygiad cynyddol sgiliau'r plant.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dod yn ddysgwyr annibynnol ac maent yn manteisio ar y cyfleoedd lawer a gynigir i ddatblygu eu sgiliau corfforol yn y lle tu allan. Mae gan y rhan fwyaf gydsymud llaw a llygaid da, gallant bedalu neu shifflo'n hyderus ac maent yn arbennig o ymwybodol o'r angen i reoli cyflymdra eu corff fel y symudant o gwmpas y lleoliad. Wrth ddefnyddio'r teganau olwyn mawr mae bron i bawb o'r plant yn gwybod mai dim ond pan fo'r goleuadau traffig yn wyrdd y gallant symud ar hyd y

ffordd. Maent hefyd yn gwybod bod angen iddynt aros pan fo'r goleuadau yn goch. Mae'r ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda iawn ac o ganlyniad maent yn gallu meithrin perthnasau positif wedi eu seilio ar barch y naill i'r llall.

Mae ffocws cryf ar hybu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer sgiliau creadigol yn nodwedd gref arbennig. Er hynny, mae angen datblygu ymhellach ddatblygiad sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Er bod ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn ystod eu gweithgareddau grŵp cyfan, fel amser cylch lle mae plant yn dysgu am liwiau a threfnu rhifau i ddeg, ni ddefnyddir Cymraeg achlysurol gan yr holl ymarferwyr. Ni anogir y plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn wastad. Darperir cyfleoedd da i'r plant ddysgu am eu hardal gyfagos drwy luniau, mapiau ac ymweliadau. Mae'r plant yn dathlu a dysgu am wyliau Cymreig fel diwrnod Dewi Sant.

Er i ddiffygion gael eu hadnabod yn narpariaeth sgiliau'r lleoliad mae tystiolaeth i awgrymu y gellir gwella'r meysydd hyn ac adeiladu arnynt yn gymharol gyflym.

Mae'r holl blant yn dechrau gwerthfawrogi arferion o ddiwylliannau eraill wrth astudio gwyliau aml ddiwylliant fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Divali, y Nadolig a'r Pasg. Mae eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang a chynaladwyedd hefyd yn datblygu'n dda.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen, maent yn gweithio'n dda fel tîm ac yn defnyddio ystod eang o agweddau i ysgogi chwarae a dysgu gweithredol. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a ganolwyd ar blant a gweithgareddau arweinir gan oedolion gyda thasgau addas iawn ar gyfer galluoedd gwahanol y plant.

Mae ymarferwyr yn gwneud dysgu yn hwyl, fel defnyddio'r ardal dŵr i esbonio i'r plant sut fydd dŵr yn llifo o uchel i isel. Roedd hwn yn weithgaredd a fwynhawyd yn fawr gan y plant. Arolygwyd y plant yn dda oddi mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae cefnogaeth oedolion o ansawdd da yn ymestyn y dysgu gydol y diwrnod. At ei gilydd mae gan y staff dechnegau ymyrryd da fel maent yn rheoli anghenion unigolion yn gelfydd a sensitif.

Nodwedd dda o'r lleoliad yw'r asesiad o addysgu. Mae staff yn nodi cyflawniadau plant ar 'nodiadau postio' a chesglir y rhain mewn ffeiliau unigol yn wythnosol. Mae'r nodiadau hyn wedi eu dyddio a'u llofnodi ac maent yn gofnod da o gynnydd plant. Datblygiad diweddar fu cyflwyno system tracio grŵp cyfan. Ymddengys bod y system hon yn gweithio'n dda ac mae'n dechrau rhoddi cofnod da i ymarferwyr o beth y gall y plant ei wneud a beth na allent ac o ganlyniad fe gymhwysir y cynllunio yn unol â hynny. Mae ymarferwyr yn rhoddi adborth llafar defnyddiol i blant fel y maent yn dysgu.

Gall rieni gyfarfod gyda'r ymarferwyr unrhyw amser, fel pan ddônt a'u plentyn i'r lleoliad yn y bore, i drafod ac amlygu materion penodol. Mae'r rhieni hefyd yn derbyn cofnod ysgrifenedig dyddiol o beth mae eu plant wedi ei gyflawni, bwyta a mwynhau yn ystod y dydd. Mae hyn yn gofnod da ac yn rhoddi gwybodaeth lawn i'r rhieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau iechyd a lles plant yn effeithiol a gwnânt gyfraniad arwyddocaol i'w datblygiad.

Mae'r lleoliad yn llwyddo i feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch ac mae'n helpu plant i wahaniaethu rhwng beth sy'n gam neu'n gymwys. Mae'r holl blant yn dysgu rhannu, helpu ei gilydd a pharchu creaduriaid byw eraill wrth chwarae gyda theganau neu siarad am y mochyn cwta. Gall bron bob un o'r plant ddangos yn eu hymddygiad bob dydd y gallant werthfawrogi'r hyn sy'n gam neu'n gymwys.

Cymerir pob gofal i sicrhau lles plant. Mae ymarferwyr yn atgoffa'r plant yn wastad o'r angen i olchi eu dwylo ar ôl bod i'r toiled neu cyn bwyta eu snac. Mae trefniadau da yn eu lle i annog plant i frwsio'u dannedd yn iawn fel rhan o Gynllun Gwên y bwrdd iechyd lleol. Mae'r plant i gyd yn ymwybodol o'r angen i frwsio eu dannedd yn rheolaidd yn enwedig ar ôl prydau.

Mae gan y lleoliad drefniadau da yn eu lle i roddi cymorth i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r staff yn delio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol er mwyn rhoddi cymorth i'r plant hyn lle bo angen.

Mae polisïau a threfniadau priodol yn eu lle i sicrhau diogelwch y plant. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ac maent yn ymwybodol o'r person a enwyd sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant. Mae'r lle chwarae tu allan yn hollol ddiogel gyda'r unig fynediad drwy'r prif ddrws, sydd yn wastad wedi ei gloi.

Mae trefniadau sefydlu da ledled y lleoliad ac mae gan rieni ddigon o gyfleoedd i gyfarfod a'r staff a thrafod unrhyw faterion o bryder. Mae'r bartneriaeth agos gyda'r ysgol gynradd leol yn sicrhau trawsnewid llyfn i'r plant sy'n symud i gam nesaf eu haddysg.

Mae profiadau dysgu sy'n hybu a meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Mae asesiadau risg priodol yn eu lle.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar i'r holl blant lle maent yn teimlo eu bod o werth ac yn rhydd o unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae gan yr holl blant, beth bynnag fo eu cefndir, fynediad cyfartal i holl agweddau'r cwricwlwm.

Ymron pob maes mae adnoddau o ansawdd da yn cael eu cydweddu i anghenion unigol plant ac maent yn cefnogi dysg yn ddigonol. Mae'r lle yn gynnes ac ymarferol gan ganiatáu ystod o weithgareddau dan do. Mae dillad priodol ar gael i blant eu

gwisgo yn ystod tywydd garw. Mae'r defnydd a wneir o'r maes awyr agored yn un o gryfderau'r lleoliad ac mae'n llawn gefnogi addysgu.

Mae dyraniad hael o ymarferwyr hyfforddedig i gyfarfod ag anghenion yr holl blant. Maent yn ymwybodol iawn o anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac yn ymroddedig iawn i barhad eu datblygiad proffesiynol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Cychwynnodd y perchennog presennol ar ei rôl ddwy flynedd yn ôl a dechreuodd greu lleoliad oedd yn wir adlewyrchu ethos cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer y plant. Mae wedi llwyddo i greu'r amgylchedd hon ac o ganlyniad mae ganddi leoliad effeithiol sy'n sicrhau bod yr holl blant yn datblygu yn ôl eu hanghenion.

Dengys dîm rheoli'r lleoliad ymrwymiad i wella. Maent yn darparu cyfeiriad clir a buont yn llwyddiannus mewn creu tîm effeithiol iawn o ymarferwyr gyda chymwysterau da. Mae disgwyliadau uchel yn amlwg ac maent i gyd yn rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r ddarpariaeth orau i'r holl blant. Mae cysylltiadau da gyda'r rhieni ac fe'i hysbysir drwy gyfrwng taflen newyddion a sgyrsiau anffurfiol. Mae rhieni yn gefnogol iawn ac yn gwerthfawrogi'r gwaith a wneir yn y lleoliad.

Cymer werthusiad staff le yn flynyddol ac fe adwaenir a delir gydag anghenion hyfforddiant. Mae trefniadau da ar gyfer sefydlu staff newydd. Galluogodd y trefniadau hyn i staff ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Da**

Ymgymerir â hunan werthusiad yn rheolaidd. Mae yn fanwl, cynhwysfawr ac yn adnabod yn glir gryfderau a llefydd i wella. Cynhwyswyd diffygion a ganfuwyd yn yr hunan werthusiadau fel meysydd ar gyfer datblygiad ar gynllun datblygu'r lleoliad. Mae gan y cynllun hwn dargedau priodol wedi eu cysylltu i ganlyniadau plant ac amserlenni addas. Daeth gwell darpariaeth ac enillion positif i blant o'r gwelliannau a ymgymerwyd.

Mae'r holl ymgymerwyr yn cyfrannu'n dda i'r broses hunan werthuso gyda chyfarfodydd o'r lleoliad i gyd yn cael eu cynnal bob chwe wythnos a chyfarfodydd mwy rheolaidd yn cael eu cynnal yn y gwahanol ystafelloedd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoddi adborth defnyddiol i'r tîm rheoli ar arfer yn y gorffennol, y presennol neu'r dyfodol.

Anfonir holiaduron i rieni yn flynyddol ac mae'r wybodaeth enillir yn helpu i adeiladu darlun cyflawn o'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn bendant annog staff i ymweld â

lleoliadau eraill er mwyn cael profiad o arfer gorau. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach i gynnwys yr ysgolion lleol.

Y perchennog yw cadair y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol (CMDC) lleol a mynycha gyfarfodydd yn rheolaidd er mwyn rhannu arfer da.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Sefydlwyd cysylltiadau cryf gyda’r holl bartneriaid sydd yn ymwneud a datblygiad plant. Mae’r lleoliad yn gweithio’n agos gyda’r rhieni gan roddi iddynt ddiweddariadau rheolaidd ar gyflawniadau a chynnydd eu plant. Cynhelir ffair haf flynyddol i feithrin cysylltiadau cryfach gyda’r rhieni / gofalwyr. Mae’r gweithgaredd hwn yn effeithiol iawn a rhydd adborth llafar defnyddiol i’r staff.

Mae partneriaethau da yn bodoli rhwng y lleoliad ac ysgolion a cholegau addysg bellach lleol. Rhydd y lleoliad gefnogaeth dda i fyfyrwyr o ysgolion uwchradd ar brofiad gwaith a myfyrwyr hŷn ar osodiadau gwaith.

Defnyddir ymwelwyr o’r gymuned yn effeithiol i gefnogi dysg plant a dealltwriaeth o’r gymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r tîm rheolaeth yn rheoli’r lleoliad yn dda, gan wneud y defnydd gorau o’r staff ac adnoddau sydd ar gael. Defnyddir yr ymarferwyr yn effeithiol ac fe’i gwerthusir yn rheolaidd.

Mae’r ymarferwyr yn ardal y Tylluanod (ystafell cyn ysgol) yn gweithio’n dda gyda’i gilydd ac yn sicrhau bod rheolweithiau dyddiol, sy’n darparu ystod briodol o weithgareddau, yn cael effaith uniongyrchol ar ddysg plant.

Prynir adnoddau’n ofalus er mwyn sicrhau ansawdd a gwydnwch a gwneir defnydd da o’r llefydd tu mewn a thu allan. Mae hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd chwe atebiad i'r holiadur rhieni ac roeddynt i gyd yn datgan eu bod yn cytuno gyda holl agweddau'r gwaith yn y lleoliad. Teimlent i gyd bod eu plentyn / plant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn teimlo'n saff a diogel yn eu hamgylchoedd.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Roedd bron y cyfan o'r plant yn hyderus wrth siarad gyda dieithryn. Roeddynt yn siarad yn glir ac roedd gan y mwyafrif eirfa dda. Roeddynt yn hoffi dod i'r lleoliad ac yn mwynhau'r gweithgareddau yn enwedig y gweithgareddau awyr agored. Roeddynt i gyd yn teimlo'n hapus ac yn gwybod beth i'w wneud os oeddynt yn teimlo'n drist neu angen help.

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Peter Roach | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn yr ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)